
Adnodd yn seiliedig ar bwnc

# Dŵr

## Cyfnod Sylfaen



Eco-Schools
Eco-Sgolion


Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

14 BYWYD O DAN Y DŴR

cadwch gymru'n daclus
keep wales tidy

# Gwybodaeth gefndirol

Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol pwysicaf ar y Ddaear ac mae'n rhaid i ni ddysgu ei amddiffyn. Mae'n bwysig deall sut mae dŵr yn troi mewn cylch, a sut mae dŵr, hyd yn oed ar ôl i ni ei ddefnyddio, yn parhau ar ei daith hir o amgylch y cylch. Mae systemau afonydd yn rhan bwysig o hyn, ac mae'n bwysig deall eu rôl.



# Safbwynt hinsawdd

Er bod dŵr yn llifo mewn cylch mae'r cydbwysedd yn fregus, ac mae'n bwysig nad yw bodau dynol yn camddefnyddio dŵr gan y gall hyn amharu ar y cylch. Drwy ddefnyddio gormod o ddŵr o un ardal gall achosi sychder yn y fan honno. Pan fydd dŵr yn llifo drwy ein systemau carthffosiaeth mae'n cymryd ynni i'w drosi'n ôl yn ddŵr glân fel y gallwn ei ailgyflwyno i'r cylch.  Gwyddom mai gorddefnydd o ynni yw un o brif achosion newid yn yr hinsawdd, sydd yn ei dro yn cael effaith ar y cylch dŵr drwy godi lefel y môr. Dyma un o'r ffactorau sy'n achosi digwyddiadau tywydd eithafol yn cynnwys llifogydd. Mae'n bwysig bod plant yn deall y cylch dŵr a'u rôl wrth warchod dŵr.

# Gweithgaredd – Llif dŵr

## Cyfnod Sylfaen

Mae'r gweithgaredd hwn yn archwilio sut mae dŵr yn llifo i lawr mewn  i nentydd, gan ffurfio afonydd cyn llifo allan i'r môr. Gall y plant siarad am sut mae llifogydd yn digwydd drwy arllwys symiau mawr o ddŵr i lawr mewn un cam, gosod rhwystrau yn y nentydd i brofi effaith argáu a gwneud iddi fwrw glaw ar eu pennau drwy fflicio'r tarpolin a'r holl ddŵr i fyny i'r awyr!

## Deunyddiau sydd eu hangen:

- **Tarpolin mawr neu hen lenni cawod**
- **Ardal o dir gyda llethr**
- **Dŵr mewn can dŵr, potel fawr neu bibell ddŵr.**



## Cam 1

**Gosodwch y tarpolin ar lethr a threfnwch 'grychau' i wneud nentydd ac afonydd.**



## Cam 2

Arllwyswch y dŵr o gopa'r llethr. Yn araf y tro cyntaf a gwyliwch sut mae'r dŵr yn llifo i mewn ac i lawr y 'nentydd'.

## Cam 3

Nesaf, arllwyswch llawer o ddŵr mewn un cam. A yw'n gorlifo dros lannau'r 'nentydd'?

## Cam 4



Ceisiwch roi gwrthrychau trwm yn y nentydd a gwasgarwch ddail neu falurion ysgafn eraill. Gwyliwch beth sy'n digwydd pan mae'r dŵr yn llifo i lawr mewn I'r nentydd. A yw'r malurion yn creu rhwystr? Beth sy'n digwydd i'r dŵr pan mae'n cyrraedd y rhwystr?

## Cam 5



Ar ôl i chi orffen yr holl arbrofion, gwaredwch yr holl falurion a gofynnwch i'r plant ymgasglu o amgylch y tarpolin mewn cylch. Maent yn mynd i weithio fel tîm i godi'r tarpolin a'i afael yn wastad. Ar ôl cyfrif i dri, maent yn mynd i fflicio'r tarpolin i fyny i'r awyr (gan gadw eu gafael arno) a bydd yr holl ddiferion o ddŵr yn hedfan i'r awyr cyn disgyn i lawr fel 'glaw' ar eu pennau. Mae'n debyg y bydd yn weithgaredd poblogaidd felly sicrhewch fod gennych ddigonedd o ddŵr i'w wneud eto!

# Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Maes Dysgu a Phrofiad -** Y Dyniaethau

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Maes Dysgu a Phrofiad:** Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:**

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

# Camau nesaf a syniadau eraill

- Cyflwynwch egwyddorion gwarchod dŵr a gofynnwch i'r plant feddwl am sut y gallant arbed dŵr e.e. diffodd tapiau wrth lanhau eu dannedd, cael cawodydd yn hytrach na bath, arbed dŵr glaw i ddyfrio gardd yr ysgol.

  Gwefannau Defnyddiol
  https://corporate.dwrcymru.com/en/community/education/teaching-resources/primary-resources
  https://canalrivertrust.org.uk/explorers/resources

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13